- Os oes gan ddysgwyr unrhyw anghenion emosiynol neu feddygol penodol, bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i ddarparwr y cwrs. Bydd angen i'r dysgwr roi caniatâd i'r wybodaeth gael ei phasio ymlaen.
- Bydd y darparwyr yn cwblhau asesiad risgiau.
- Ystyrir bod digon o oruchwyliaeth yn ystod egwyliau.
- Bydd pob aelod o staff sy'n darparu'r cwrs wedi cael gwiriad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Mae gan bob safle bolisi gwrthfwlio. Bydd unrhyw broblemau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r ysgol.
- Os bydd unrhyw safle'n cau mewn argyfwng, bydd yr athrofa sy'n cau yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cludiant a'r ysgolion cyn gynted â bod y penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r safle.
- Mae gan bob darparwr bolisïau iechyd a diogelwch y mae'n rhaid eu dilyn. Rhaid i'r myfyrwyr wisgo offer amddiffynol personol sy'n briodol ar gyfer y cwrs.
- Os bydd damwain neu os bydd angen sylw meddygol ar unrhyw fyfyriwr, bydd yr ysgol yn cael gwybod ar unwaith a bydd y ffurflenni damweiniau perthnasol yn cael eu llenwi ar y safle. Mewn argyfwng, gallai'r darparwr gysylltu'n uniongyrchol â'r rheini/gwarcheidwaid. Bydd oedolyn cyfrifol yn aros gyda'r myfyrwyr trwy'r amser.
- Mae'r deddfau Amddiffyn Plant, Diogelu Data a Datgelu Gwybodaeth yn berthnasol i holl aelodau'r bartneriaeth hon i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed.

Protocolau Ysgolion

ar gyfer sesiynau ar ddydd Mawrth a dydd Mercher pan fydd myfyrwyr mewn safle heblaw am eu hysgol arferol

14-19 wrexham network rhwydwaith wrecsam

Ysgol Bryn Alun

Ysgol Clywedog

Ysgol Maelor, Llannerch Banna

yale Coleg Iâl, Wrecsam Yale College, Wrexham

Ysgol y Grango

Ysgol Morgan Llwyd

St.Christopher's School

Darland School

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff

Rhosnesni Wrexham

Ysgol Rhiwabon

SICRHEWCH FOD YR HOLL DDISGYBLION WEDI LLENWI FFURFLEN B A BOD MANYLION CYSWLLT DIWEDDAR AR GAEL MEWN ARGYFWNG.

Mae Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam, ysgolion a'r Rhwydwaith 14-19 wedi cydweithio i ymestyn y dewis o Lwybrau Dysgu sydd ar gael. Mae'r rheolau isod i bob myfyriwr pan fyddant mewn safle heblaw am eu hysgol arferol ar brynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher.

- Rydym yn disgwyl i fyfyrwyr fod yn bresennol ym mhob sesiwn os ydynt am gael y budd mwyaf o'r cwrs. Os nad ydynt yn gallu dod i'r sesiwn, dylai eu rhieni/gwarcheidwaid gysylltu â'r ysgol a fydd yn rhoi gwybod i'r ganolfan.
- Rydym yn disgwyl i fyfyrwyr ymddwyn ar eu gorau bob amser. Bydd rheolau arferol yr ysgol yn berthnasol. Bydd y myfyrwyr yn cael gwybod am unrhyw reolau penodol sy'n berthnasol i'r cwrs yn y ganolfan y maent yn ei mynychu. Rhaid iddynt ddilyn rheolau iechyd a diogelwch. NID YDYNT YN CAEL YSMYGU YN UNRHYW UN O'R CANOLFANNAU – Y TU MEWN NA THU ALLAN.
- Mae'n bwysig iawn eu bod yn mynd ag offer priodol a dillad arbenigol i bob sesiwn.
- Rhaid iddynt wisgo eu gwisg ysgol yn yr ysgol bob bore dydd Mawrth a dydd Mercher. Bydd y trefniadau ar gyfer y prynhawn yn amrywio gan ddibynnu ar y cwrs.
- Mae gwaith cartref yn rhan bwysig o rai cyrsiau a rhaid i fyfyrwyr ei gwblhau erbyn y dyddiad priodol.
- Bydd yr ysgol yn cael gwybod os bydd y myfyrwyr yn camymddwyn ar y bysiau neu yn y ganolfan.
- Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei anfon at rieni/gwarcheidwaid; bydd yn cynnwys manylion presenoldeb, ymdrech a chyraeddiadau'r myfyrwyr ar y cwrs. Bydd adroddiadau ar gyfer cyrsiau TGAU yn cael eu paratoi ym mis Ionawr a'u dosbarthu erbyn hanner tymor. Bydd adroddiadau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ym Mlwyddyn 10 yn cael eu paratoi ym mis Mai a'u dosbarthu ym mis Mehefin. Bydd ail adroddiad yn cael ei baratoi ym mis Ionawr ym Mlwyddyn 11.
- Bydd ysgolion yn cael copi o'r adroddiad ac adroddiad wythnosol am bresenoldeb myfyrwyr ac unrhyw broblemau sydd wedi codi. Byddant hefyd yn cael gwybod am unrhyw absenoldebau di-awdurdod dros y ffôn yn ystod y sesiwn.
- Mae'r myfyrwyr yn gyfrifol am eu heiddo bob amser. Ni fydd yr ysgol, y darparwr na'r rhwydwaith yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod.
- Bydd ysgolion yn cael gwybod am y trefniadau ar gyfer arholiadau ac asesiadau allanol yn ôl yr angen. Mae gan yr ysgol a'r darparwr hawl i beidio â chofrestru unrhyw ymgeisydd sydd â phresenoldeb gwael neu agwedd anfoddhaol tuag at waith cwrs.
- Mewn argyfwng, gofynnir i fyfyrwyr sicrhau bod gan yr ysgol rifau ffôn diweddar ar gyfer eu rhieni/gwarcheidwaid.
- Mae'r sesiynau'n gorffen am 4.15pm. Rhaid i'r myfyrwyr wneud eu trefniadau eu hunain i fynd adref. Gall myfyrwyr yn safleoedd Ffordd y Bers a Sant Christopher ddychwelyd i brif safle Coleg Iâl os ydynt eisiau gwneud hynny (mae cludiant ar gael yno). Bydd myfyrwyr sy'n astudio Garddwriaeth yn Ysgol Maelor, Llannerch Banna yn cael cyngor ar wahân.
- Bydd ysgolion yn cael manylion cyrsiau ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar ddechrau mis Ionawr bob blwyddyn.
- Bydd ysgolion yn cadw tystiolaeth ysgrifenedig o ganiatâd i fynychu cyrsiau.
- Bydd canlyniadau'r holl arholiadau'n cael eu hanfon dros yr e-bost. Bydd copi papur yn cael ei anfon cyn gynted â phosibl.